# Gwynedd & Eryri 2035

Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy
Sustainable Visitor Economy Plan



**Cynllun Gweithredu Drafft 2024-25**
Draft Implementation Plan 2024-25

**Ein Gweledigaeth : Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri**

**Mae'r Cynllun Strategol yn adnabod egwyddorion ac amcanion erbyn 2035:**

## 1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

*Mesuryddion posib hir dymor*:

- % o drigolion y Sir a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol
- % o drigolion y Sir a holwyd yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
- % o fusnesau a mentrau economi ymweld sydd wedi cael achrediad Pencampwr Twristiaeth Cynaliadwy GaE2035
- Nifer yr unigolion wedi cofrestru ar gynllun Llysgennad Gwynedd / Eryri

## 2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd

- Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

*Mesuryddion posib hir dymor:*

- % o drigolion y Sir a holwyd yn deud bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a byd natur
- Nifer yn defnyddio'r gwasanaeth Sherpa (ceisio adnabod mesuryddion trafnidiaeth ac amgylchedd pellach)

## 3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

- Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol

*Mesuryddion posib hir dymor:*

- Gwariant ymwelwyr dros nos
- Gwariant ymwelwyr dydd
- Nifer yn cael eu cyflogi oddi fewn i'r sector twristiaeth

** Mae dashfwrdd mesuryddion ehangach yn cael ei ddatblygu i adrodd ar y sefyllfa bresennol er mwyn cymharu drwy gydol oes y Cynllun.*

**Cynllun Gweithredu Partneriaid 2024-5 i gyrraedd yr egwyddorion uchod**

**Allwedd:**

- CG: Cyngor Gwynedd
- APCE: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- CBSC: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- LlLlE: LLwybr Llechi Eryri
- LlC: Llywodraeth Cymru
- TrC: Trafnidiaeth Cymru
- PB: Prifysgol Bangor
- CNC: Cyfoeth Naturiol Cymru
- CE: Cymdeithas Eryri
- YG: Ymddiriedolath Genedlaethol
- PAA: Y Bartneriaeth Awyr Agored

Prosiectau wedi'i uwcholeuo mewn glas – Cyllid wedi'i gadarnhau Prosiectau nad ydynt

wedi'i uwcholeuo - Yn amodol ar gyllid

*Bydd prosiectau ddim ond yn cael eu cynnwys ar y tabl pan fyddant wedi derbyn cadarnhad cynllunio.

*Mae hon yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu a'i datblygu fel bod angen.*

| Ymchwil, Sgiliau a Datblygu | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gweithred** | **Pwy sy'n arwain?** | **Adnoddau** | **Amserlen** | **Mesur effaith** | **Allbwn** | **Diweddariad diwedd y flwyddyn** | **Statws** |
| **1** | **AROS-FAN**<br><br>Peilota rhwydwaith o 'aires' yng Ngwynedd ar gyfer arosiadau tymor byr cartrefi modur:<br>Cricieth<br>Pwllheli<br>Llanberis | CG | CG a LlC (Cronfa Pethau Pwysig) £390,000 | Pob Aros- fan ar agor erbyn Haf 2024 | Nifer y cwynion am barcio gartrefi modur yn anghyfreithlon, canran y trigolion sy'n adrodd am effaith bositif twristiaeth, a chynllun adolygu'r peilot, gan gynnwys defnydd y safleoedd a'r adborth. | Lleihad yn y nifer o Gartrefi modur yn parcio yn anghyfreithlon | Mae pedwar safle yn weithredol. Gwasanaeth cyfyngedig ar gael yng Nghaernarfon<br><br>Motorhomes / Arosfan (llyw.cymru) | Ar y trywydd iawn |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Caernarfon | | | | | | | |
| **2.** | **CYNLLUN LlYSGENHADON GWYNEDD AC ERYRI**<br><br>Darparu gwybodaeth gyson i ymwelwyr a helpu'r sector i nodi bylchau, megis chwedlau Eryri, ei rhinweddau arbennig, a'i ddiwylliant | CG APCE | Cronfa LlC o £10,000 ac amser staff CG ac APCE | Cynlluniau mewn lle ac yn cael eu datblygu yn gyson | Nifer yr unigolion sy'n cymhwyso fel llysgenhadon bob blwyddyn.<br>Canran y busnesau a'r sefydliadau yn y sector ymwelwyr sydd wedi cymhwyso fel llysgenhadon | **Llysgenhadon Eryri** 2/4/25<br><br>Aur - 872<br>Arian – 991<br>Efydd - 1275<br><br>Ailgymhwyso<br>2023: 239<br>2024: 274<br>2025: 359<br><br>**LLysgenhadon Gwynedd** – Mawrth 2025:<br><br>420 Cyfanswm llysgenhadon Cofrestredig<br><br>Efydd – 227<br>Arian – 142<br>Aur – 123 | **Eryri:** Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant amrywiol sy'n hyrwyddo rhinweddau arbennig y Parc e.e. hyfforddiant asesiad coedwigoedd glaw.<br><br>Parhau i gydweithio hefo cynlluniau ar draws Cymru e.e. Wythnos Llysgenhadon mis Tachwedd.<br><br>**Gwynedd:** Cynnydd parhaus gyda diweddariadau misol, gan gynnwys sylw yn y Bwletin Busnes i hyrwyddo'r cynllun. Hyrwyddo ar y cyd yn ystod Wythnos Llysgenhadon Cymru (Tachwedd 11-15), gyda phresenoldeb llysgenhadon yn nigwyddiadau Busnes @ Gwynedd a Ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd. | Wedi'i gwblhau. Yn parhau i 2025-26 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Llysgenhadon Cymru – Cynllun Llysgenhadon Cymru<br><br>(ambassador.wales) | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3** | **PEILOT PROSIECT YR WYDDFA DI-BLASTIG**<br><br>**PEILOT MEWN GWYDDOR YMDDYGIADOL** | APCE a PB | Swyddog wedi apwyntio am 2 flynedd - APCE | Peilot yn dod i ben mis Hydref 2024 | Mesuryddion penodol i'r prosiect.<br><br>Mesur cyffredinol – A yw'r parth o amgylch yr Wyddfa sydd wedi'i adnabod yn cyrraedd statws Ddi- blastig erbyn Hydref 2024 | 1. Mae Caru Eryri yn adrodd ar 37% llai o sbwriel ar Lwybr Llanberis , 34% llai ar Lwybr Watkin (2024 yn erbyn 2022).<br><br>2. Rhwydwaith o 36 busnes heb blastig yn yr ardal.<br><br>3. Cysylltwyd â 21 o ysgolion cynradd a 12 o ysgolion uwchradd trwy sesiynau byw, gyda'r digwyddiad COPA1 a'r gystadleuaeth fel y prif ddigwyddiad.<br><br>4. Cydweithrediad gyda Phrifysgol Bangor ar arbrofion seicolegol i newid ymddygiad.<br><br>5. Peilot ar ddileu biniau. | Mae'r prosiect wedi creu rwydwaith busnesau di-blastig ac ymgysylltodd â defnyddwyr mynydd, pobl ifanc, a'r cyfryngau ar y mater sbwriel.<br><br>Mae ymchwil gyda Phrifysgol Bangor a pheilotau 2022-24 wedi datblygu strategaethau a tystiolaeth newydd i leihau sbwriel yn Eryri.<br><br>Yr Wyddfa Ddi-blastig Parc Cenedlaethol Eryri | Gwnaed cynnydd ond ni fydd yn cael ei gwblhau erbyn Ebrill 2025.<br><br>Mae sbwriel ar Yr Wyddfa wedi lleihau, ond ni chyflawnwyd 'Parth Di-blastig' oherwydd maint y broblem a'r heriau cymdeithasol a seilwaith parhaus.<br><br>Yn disgwyl data llwybrau cerdded ac adroddiad terfynol y prosiect. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 6. Tapiau ail-lenwi.<br><br>7. Polisi Plastig Un Defnydd a phrofion mewnol.<br><br>8. Ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus (Mabinogion, Bananacam).<br><br>9. Sefydlu proses monitro sbwriel. | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **PROSIECT FFYNIANT CYFFREDIN**<br><br>Ail-ddehongli'r safle a stori Lloyd George | CG | Cyllideb Ffyniant Gyffredin o £360,000 | Diwedd Mawrth 2025 | Nifer yr ymwelwyr<br><br>Nifer y digwyddiadau<br><br>Nifer y gweithgareddau<br><br>Casglu adborth ar y safle | Cwblhau arddangosfa newydd.<br>Bydd mesuriadau'n cael eu casglu wrth ailagor.<br>Gwerthusiad y prosiect wedi'i gwblhau. | Mae'r safle ar gau ar hyn o bryd.<br><br>Mae cwmni wedi'i benodi i ailddehongli, a bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2025. | Wedi cwblhau ac yn ail agor ir cyhoedd 14/4/25 |
| 5 | **PROSIECT ORIEL GELF GYFOES**<br><br>Datblygu presenoldeb Storiel yng Nghanol Dinas Bangor a Plas Glyn-y-Weddw, Pwllheli fel rhan o'r Oriel Gelf Gyfoes | CG a PB | Cyngor Celfyddydau Cymru Storiel Bangor £344,484<br><br>Plas Glyn- y-Weddw £420,000 | Diwedd Mawrth 2025 | Nifer o ymwelwyr a gwirfoddolwyr<br><br>Casglu adborth ar y safle | Cwblhau'r gwaith uwchraddio ar yr orielau celf ac yn rhan o'r rhwydwaith CELF (prosiect Oriel Gelf Gyfoes).<br>Dau fenthyciad arddangosfa wedi'u trefnu ar gyfer 2025. | Rhaglen waith wedi'i chwblhau gan gynnwys datblygu cynulleidfaoedd a chomisiynau marchnata. Mae gwaith cyfalaf i wella diogelwch y mannau arddangos er mwyn derbyn benthyciadau cenedlaethol wedi'i weithredu. | Wedi cwblhau. Cynhaliwyd yr arddanghosfa CELF cyntaf ar y 11/4/25 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6a** | **YMCHWIL:** Adolygiadau, **ymchwil STEAM 2024 ,** Adolygiad o farn trigolion am dwristiaeth Yng Ngwynedd ac Adolygiad o ddigwyddiadau yng Ngwynedd | CG, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy. | Amser staff CG, APC ac PB. | Diwedd Ebrill 2025 | Dangosyddion a gytunwyd arnynt i olrhain cynnydd yn erbyn egwyddorion y Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy. | Adroddiadau terfynol wedi'u cwblhau a'r canfyddiadau wedi'u hadolygu | **Adolygiad STEAM** yn cael iw wireddu bob blwyddyn gan CG a APCE. Disgwyl canlyniad adroddiad 2024. **Arolwg i farn trigolion Gwynedd ar dwristiaeth.** Mae 1500 o bobl wedi cwblhau'r Arolwg. Mae'r adroddiad terfynol yn cael ei ddatblygu. Bydd y canfyddiadau'n cael eu hadolygu. **Adolygiad o Ddigwyddiadau Gwynedd** a gynhaliwyd gyda cydweithrediad Prifysgol Bangor wedi'i gwblhau. Yn disgwyl yr adroddiad terfynol a chrynodeb o'r canfyddiadau. | Ar y trywydd iawn. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6b | **YMCHWIL: LLWYBR LLECHI ERYRI - ERYRI SLATE TRAIL**<br><br>Ymchwil i gyfleusterau a hangorion cerddwyr.<br><br>Arolwg busnesau.<br><br>Ymchwil benodol mewn tri ardal o'r Dyffrynnoedd Llechi ynglŷn â: Ymgysylltu â'r gymuned a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.<br><br>Ymchwil i ddod â'r llwybr i safon Llwybr Cenedlaethol. | LlLlE Cymunedoli Cyf | Arian cychwynnol o £9400 wedi'i gytuno drwy Grymuso Gwynedd | **Cyfleusterau /Anghenion cerddwyr:** Adroddiad ymchwil cychwynnol Medi 2024.<br><br>**Ymchwil i Safon Llwybr Cenedlaethol:** Adroddiad arolwg terfynol wedi'i gwblhau erbyn Gorffennaf 2024 | **Cyfleusterau/Anghenion cerddwyr:** Mae'r data yn ffurfio sylfaen ar gyfer gwaith a ariannwyd gan UKRI a chynhaliwyd gan sefydliadau eraill.<br><br>**Ymchwil i Safon Llwybr Cenedlaethol:** Datblygu strategaeth i weithredu'r gwaith i ddod â'r Llwybr i safon Llwybr Cenedlaethol. eraill. | **Cyfleusterau/Anghenion cerddwyr:** Datblygu strategaeth i wella buddion i fusnesau bach a Chymunedau.<br><br>**Ymchwil i Safon Llwybr Cenedlaethol:** Adroddiad cynhwysfawr ar y gwaith sydd ei angen i uwchraddio Llwybr Llechi Eryri i safon Llwybr Cenedlaethol. Mae cynghorau, asiantaethau a'r Senedd yn cydnabod y manteision mawr ynglŷn â chostau pan fydd y Llwybr yn llwybr Cenedlaethol. | **Cyfleusterau/Anghenion cerddwyr:** 237 ymatebion wedi'u cofnodi fel rhan o arolwg cerddwyr 'Llwybrau Llechi' 2024. Mae adroddiad dwyieithog wedi'i ddosbarthu'n eang.<br><br>**Arolwg Busnesau:** 73 o ymatebion wedi'u derbyn.<br><br>**Ymgysylltu â'r Gymuned/Hyrwyddo'r iaith Gymraeg:** 9 o aelodau'r cymunedau Nantlle, Bethesda a Blaenau Ffestiniog wedi siarad a'r cyhoedd a wneud ymchwil desg. | **Cyfleusterau a hanghenion cerddwyr:** Wedi'i gwblhau Hydref 2024<br><br>**Arolwg Busnesau:** Wedi'i gwblhau Hydref 2024<br><br>**Ymgysylltu â'r Gymuned/Hyrwyddo'r iaith Gymraeg:** Wedi'i gwblhau Hydref 2024<br><br>**Ymchwil i Safon Llwybr Cenedlaethol:** Wedi'i gwblhau Medi 2024 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | **Ymchwil i Safon Llwybr Cenedlaethol:** Arolwg a chostau wedi'u cwblhau.<br><br>Llwybr Llechi Eryri Adroddiad Ymchwil (Llwybr Llechi Eryri – Snowdonia Slate Trail - 2024 Investigation Report) : Ymddiriedolaeth, Llwybr Llechi Eryri, Rogerson, Tansy, Greenhalgh, Roger: Amazon.co.uk: Books | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6c** | **YMCHWIL: Hyrwyddo**<br><br>Hyrwyddo treftadaeth y Llwybr i bobl ifanc a chryfhau cysylltiadau cymunedol a busnes i gael mwy o effaith. | SST Cymunedoli Cyf | £3200 o gyllid ar gyfer pecyn addysg ysgolion cynradd digidol a teithiau cerdded ar ap ar gyfer plant a theuluoe d d ifanc. | Wedi'i gwblhau Erbyn Rhagfyr 2024 | Daw plant ac oedolion i werthfawrogi ein tirwedd a threftadaeth llechi | Cyflwyno`r pecyn ac ap i ysgolion a defnyddwyr eraill | Datblygodd y prosiect ddeunyddiau prototeip, gan gynnwys cynnwys ap GPS, llwybrau darganfod dan arweiniad, Llyfryn Adnoddau i Athrawon, cronfa ddata ar-lein, a chyhoeddiada u megis *Ditectifs Hanes – Gweithgaredd au Disgyblion*, *Ditectifs Hanes Eryri*, a *Llechi 101*. Mae'r holl ddeunydd craidd wedi'u trwyddedu o dan Creative Commons Attribution Noncommerci al Share Alike. | Mae'r gwaith yn parhau, ac mae'r adroddiad terfynol ar fin cael ei gyflwyno. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6d** | **YMCHWIL:** Prosiectau cynaliadwy arweiniwyd gan y gymuned. | SST Cymunedoli Cyf NT | Cyflwyniad mawr i UKRI ar waith £ i'w gadarnhau | UKRI yn brosiect 5 mlynedd | Cyllid wedi'i gadarnhau ac ymchwil i ddechrau | | Mae Llwybr Llechi Eryri wedi derbyn bron i £1M dros bum mlynedd gan UKRI i ddatblygu prosiectau twristiaeth cynaliadwy dan arweiniad y gymuned.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi recriwtio wyth o ymchwilwyr cymunedol i gasglu gwybodaeth, mynychu hyfforddiant a datblygu syniadau.<br><br>Byddant yn cydweithio ag ymchwilwyr o ddyffrynnoedd eraill. Bydd y prosiect yn esblygu dros bum mlynedd gyda photensial mawr i'r gymuned ym maes | Rydym yn chwe mis i mewn i'r prosiect.<br><br>Wedi recriwtio wyth ymchwilydd o'r gymuned. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | twristiaeth. | |
| **6e** | **Llwybr Llechi Eryri - Slate Trail: Strategaeth Cyfathrebu**<br>Bydd adroddiad i UKRI yn cael ei gwblhau i ddatblygu strategaeth ddatblygu, marchnata a chyfathrebu briodol. | SST<br>Cymunedoli Cyf<br>CG<br>CCBC<br>Eryri - APCE | Nid wedi'i gadarnhau. | Dyddiadau cyflwyno a cymeradwyo i'w gadarnhau. | Cais a chyllid wedi'i gymeradwyo gan UKRI. | Cymeradwywyd. | £1 miliwn dros 5 mlynedd gan UKRI wedi'i derbyn.<br><br>Yn y 6ed mis o hyfforddiant i'r ymchwilwyr cymunedol ag ymchwil desg. | Ar y trywydd iawn. |
| **6f** | **Llwybr Llechi Eryri Slate Trail: Bwrdd Dehongli**<br>Gosod bwrdd dehongli ar bob pen o'r Llwybr. | NT<br>SST | Ceisio cyllid o £4600 ar gyfer gynhyrchu a gosod | Diwedd Haf 2025 | Bydd cerddwyr yn deall mwy am y Llwybr a'r ardal y mae'n mynd drwyddi | Un cam arall ar y daith i statws Llwybr Cenedlaethol | Cafwyd grant o £3,750, gyda Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn cwblhau'r bwlch ariannol. Cwblhawyd y dylunio'r bwrdd ar 20/03/25, a disgwylir y | Cafwyd grant ac fe gosodir y bwrdd gwybodaeth erbyn Mehefin/Gorffennaf 2025. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | gosodiad erbyn Mehefin/Gorffennaf. | |

## Marchnata a Chyfathrebu

| | Gweithred | Pwy sy'n arwain? | Costau ac Adnoddau | Amserlen | Mesur effaith | Allbwn | Diweddariad diwedd y flwyddyn | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7** | **Marchnata a Chyfathrebu Arloesol - Cynllun Diwyllesiant SPF**<br>Cydlynnu a datblygu ymgyrch i hyrwyddo ac annog twristiaeth cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri – **Ymgyrch Gwynedd a Eryri Ni** | CG APCE | Cronfa SPF. £30,000<br>Amser staff CG & NPA | 2023 – 2024/ 2025 | Allbynnau penodol ir prosiect | Cynhaliwyd 3 digwyddiad cefnogi busnesion a chymunedau<br><br>35 o grwpiau cymunedol/busnes wedi mynychu.<br>Allbynnau y cynllun Gwynedd a Eryri Ni 1.2m cyrhaeddiad yr ymgyrch, 23.3 m clic ar linciau a 162,200 mil o views o'r fideos rannwyd | Sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda rhwydweithiau busnes a chymunedol yn ystod Medi 24.<br><br>Mae'r comisiwn wedi mynd rhagddo o ran rhaglen cyfathrebu Economi Ymwelwyr Cynaliadwy ar y cyd rhwng CG a ENPA. | Wedi'i gwblhau a derbynwyd canlyniadau.<br><br>Bydd gweithgaredd tebyg yn cael iw cynnal yn 2025/6 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***8*** | Modiwl twristiaeth cynaliadwy , Cynllun Llysgenhadon Gwynedd a Eryri.<br><br>Cod ymddygiad ymwelwyr a llw Twristiaeth cynaliadwy i fusnesau<br><br>Rhan o brosiect Gwynedd a Eryri Ni | CG, APCE | Amser staff a chronfa SPF | 2023/24 -2025 | Mesuryddion prosiect benodol | Allbynnau y cynllun wedi iw cyrraedd | Rhan o brosiect Gwynedd a Eryri Ni.<br><br>Modiwl twristiaeth cynaliadwy yn fyw ar Platfform Llysgennad Gwynedd a Eryri<br><br>Cod ymddygiad ymwelwyr wedi'i ddatblygu a llw busnesau wedi'i lansio.<br><br>Gwynedd Ambassador Course – Ambassador Wales<br><br>Cwrs Llysgennad Gwynedd – Llysgenhadon Cymru<br><br>Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri \| Eryri<br><br>Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri \| Eryri | Wedi'i gwblhau a derbyniwyd canlyniadau |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | **Datblygu ymgyrch 'Lleol i ni'**<br>Creu a hyrwyddo profiadau lleol i'r ardal hon.<br><br>Codi ymwybyddiaeth o'n treftadaeth, diwylliant a iaith unigryw, tirlun lleol, cynnyrch a chymunedau.<br><br>Cynyddo gwariant a estyn y tymor. | CG, APCE | Amser staff a chronfa SPF £100,000 | 2024-2025 | *Dangosyddion prosiect penodol* | Dangosyddion y prosiect wedi I'w cyrraedd o ran gwariant , cynulleidfa a cyrhaeddiad | Sefydlwyd prosiect Lleol i Ni.<br>Tynnu sylw at y gynyddu gwariant a thrwy'r flwyddyn, a darparu gwybodaeth<br><br>Gwyliau haf bythgofiadwy yn Eryri \| Eryri<br><br>Exploring Eryri (Snowdonia) and Pen Llŷn \| Visit Snowdonia | Wedi'i gwblhau a derbyniwyd canlyniadau<br><br>Cynllun Marchnata Digidol 'Lleol i Ni' wedi cynhyrchu 120,609 o gliciau ar y wefan, 9,800 o ymweliadau ychwanegol i'r ardal, a £2 miliwn mewn gwariant ychwanegol gan ymwelwyr. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **10** | **Ystafell Ddehongli Cwm Idwal**<br>**Paneli newydd** a ffilmiau byr am fioamrywiaeth Cwm, chwedlau lleol, hen fythau a hanes.<br><br>Diweddariadau parhaus a chynnal a chadw **gwefan Cwm Idwal** a'r tudalennau addysgol. | YG, CNC, APCE, Dan Arweiniad gan y Swyddog Partneriaeth (RWW)<br><br>YG, CNC, APCE, Dan Arweiniad gan y Swyddog Partneriaeth | Wedi'i ariannu gan CNC £17,400, TAIS ac amser staff<br><br>Cyllid CNC, YG, APCE | Wedi ei gwblhau 2024<br><br>Parhaus | Nifer yr ymwelwyr drwy'r drws<br><br>Defnydd o ffilmiau<br><br>Niferoedd yn defnyddio ystafell ddehongli ar gyfer digwyddiadau | Holiaduron wedi adrodd sylwadau cadarnhaol am yr ystafell ddehongli a'r gwaith newydd. | Paneli newydd wedi'u gosod yn y toiledau, ynghyd â phanel diogelwch ar ddarllen mapiau wedi'i ychwanegu i'r ganolfan. | Gwaith ar y gweill i ddatblygu paneli ychwanegol sy'n cyflwyno neges ymweliad diogel ar ôl heriau a ddaw o'r cynnydd mewn niferoedd y ymwelwyr. |

| Prosiectau cyd-weithio | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gweithred** | **Pwy sy'n arwain?** | **Costau ac Adnoddau** | **Amserlen** | **Mesur effaith** | **Allbwn** | **Diweddariad diwedd y flwyddyn** | **Statws** |
| **11** | **Caru Eryri**<br>Datblygu rhaglen Caru Eryri ymhellach i gynnwys pobl lleol ac ymwelwyr | APCE<br>CE<br>YG<br>PAA | Staff ar draws pob mudiad<br>Cronfa Loteri a chronfeydd LlC | Mawrth 2025 a thu hwnt | Nifer o bobl leol sy'n gwirfoddoli yn gyson<br>Nifer o ymwelwyr sydd wedi cofrestru i wirfoddoli | 2024<br>Nifer o bobl leol(LL Postcode): 34<br>Nifer o ymwelwyr: 96<br>2023<br>Nifer o bobl leol (LL postcode): 101<br>Nifer o ymwelwyr: 32 | Derbyniodd chwe phrosiect dan arweiniad gwirfoddolwyr adborth cadarnhaol, gyda presenoldeb cryf dros yr haf. Bu sesiynau hanner diwrnod yn llwyddiannus, gan helpu i gynnal y cynllun yn gynaliadwy.<br>***Nifer y Gwirfoddolwyr: 177***<br>***Nifer y Dyddiau Gwirfoddoli: 211*** | Wedi'i gyflawni ar gyfer y tymor |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| **12** | **Sherpa'r Wyddfa**<br>Ymestyn y gwasanaeth presennol i gynnwys y S4<br><br>**T10**<br>Ymestyn y Peilot T10 - bysiau bob awr o Fangor – Corwen – Bangor | TrC<br>CG CBSC<br>APCE | TrC<br>CG CBSC<br>APCE yn cyfrannu | Amserlen yr Haf 23/3/24 – 2/11/24 | Nifer o ddefnyddwyr Sherpa'r Wyddfa a'r T10 yn cynyddu<br><br>Adborth gan bobl leol am y gwasanaethau | Aros am ddata gan CG a TC<br><br>Aros am ddata gan TrC | Cynydd eto mewn defnyddwyr y Sherpa efo mis Awst yn cyrraedd dros 70,000 o ddefnyddwyr. Peilot o cynyddy'r amserlen S4 yn cael ei adolygu dros y gaeaf.<br><br>Peilot cynyddu'r amserlen y T10 wedi bod yn llwyddiant a'r cyfnod peilot wedi dod i ben. Bydd y gwansanaeth yr haf yn rhedeg bob awr o hyn ymlaen. | Yn unol â'r amserlen |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **13** | **Cronfa Cymunedau Eryri** | APCE<br>LlC<br>Cymunedol i Cyf | Cronfa Tirweddau Cynaliadw y, Lleoedd Cynaliadw y gan LlC wedi'i weinyddu gan APCE £75,000 | Tan diwedd Mawrth 2025 | Nifer o brosiectau a'r ystod o brosiectau gwahanol sydd wedi cael ei ariannu a chwblhau<br><br>Adolygiad o gwmpas a lleoliadau'r prosiectau a ariennir yn 2024-25 | 10 prosiect wedi cael ei ariannu ar draws Eryri. Ystod eang o brosiectau gan gynnwys datblygiadau i'r gymuned ac ynni gwyrdd. | Mae nifer o brosiectau llwyddiannus dan arweiniad y gymuned ac ynni gwyrdd wedi'u cwblhau.<br><br>Paratoadau ar y gweill ar gyfer y broses ymgeisio 2025–26. | Wedi cwblhau |
| **14** | **Cofrestr digwyddiadau Llanberis a'r Wyddfa**<br>Gweithio i ehangu'r uchod ar draws yr ardal/sir.<br>Annog dull cyson a chynaliadwy o'r ffordd y caiff digwyddiadau eu trefnu a'u hysbysebu | CG APCE<br>CNC YG<br>CBSC | CG APCE<br>Grŵp datblygu Llanberis | Mawrth 2025 | Nifer trefnwyr digwyddiadau' n cofrestru eu digwyddiad ar y cofrestr | I'w gadarnhau | Parhau i gydweithio ag APCE a adolygiad tymor 2024/25.<br><br>Cynhaliwyd dau weithdy rheoli risg ar gyfer digwyddiadau'r sir. Ariannwyd trwy SPF | Wedi'i gwblhau – bydd gwaith datblygu pellach yn parhau i 2025–26. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **15** | **Prosiectau Ffyniant Bro a Ffyniant Gyffredin 'Llewyrch o'r Llechi'**<br>Gwella isadeiledd yr ardal ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr. | CG | Adnoddau<br>LUF - £27miliwn<br>NHLF - £2 filiwn<br>SPF - £550,000<br>CG<br>Cwmni Bro Partneriaeth Ogwen<br>Amgueddfa Cymru | Diwedd Mawrth 2025 (SPF)<br>Diwedd Mawrth 2026 (LUF) | Mesuryddion penodol i'r prosiectau | Mesuryddion penodol i'r prosiectau | Sylw yn cael ei roi i gynlluniau yn ardal Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog gan gynnwys buddsoddiad yn yr Amgueddfa yn Llanberis.<br><br>Cais Loteri wedi llwyddo cyfwerth a £1.7m i ymestyn y cynnllun LleCHi LLe NI | Yn unol â'r amserlen |
| **16** | **Datblygu isadeiledd Parc Glynllifon**<br>gan gynnwys yr hen felin, llwybrau ac unedau busnes sydd yn arwain at | CG | Cynllun SPF £200,000 Diwyllesiant | Rhagfyr 2024 | Cynyddu nifer ymwelwyr | Gwaith monitor ar droed | Mae'r EOI am £2.6m i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus. Defnyddiwyd astudiaethau dichonoldeb SPF i wneud y cais. Bydd cais llawn yn cael ei gyflwyno ddiwedd Mai 2025. | Yn unol â'r amserlen |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynyddu ymwelwyr i'r safle a gwella'r profiad i ymwelwyr a'r gymuned leol. | | | | | | | |
| **17** | **Sefydlu cronfa 'galluogi' Digwyddiadau Gwynedd– arianwyd trwy SPF** | CG APCE<br>CFC | Cronfa<br>SPF<br>£132,000 | Mai 2023 -<br>Mawrth 2025 | Nifer digwyddiadau wedi i'w cefnogi<br><br>Cwmpas ac ystod y prosiectau a gefnogir<br><br>Cwmpas daearyddol y prosiectau a gefnogir | 54 digwyddiad wedi cael eu cefnogi<br><br>Wrthi'n adolygu cwmpas y digwyddiadau a manylion daearyddol & buddion cymunedol ac economaidd | 2023: Cefnogwyd 21 o ddigwyddiadau.<br><br>2024/25 – Cefnogwyd 33 o ddigwyddiadau trwy becyn cefnogaeth digwyddiadau SPF Gwynedd.<br><br>Mynychwyd gan 154,928 o bobl, gyda budd economaidd o tua £4.069 miliwn i'r economi leol. | Wedi cwblhau |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| **18** | **Prosiectau gwella canol trefi**<br>Gweithredu prosiectau Ffyniant bro a Ffyniant cyffredinol<br><br>**Hwb Treftadaeth a Chelf Dyffryn Nantlle**<br>Yr Orsaf yn cyflogi rhywun tan diwedd Rhagfyr i ddatblygu cynllun busnes | CG | CG APCE Cronfa Ffyniant Cyffredino l £1.8 miliwn<br><br>Yr Orsaf £11,000 | Mawrth 2025 | Mesuryddion penodol i'r prosiectau | Mesuryddion penodol i'r prosiectau | Sawl cynllun yn weithredol / cael i'w Datblygu trwy gronfa SPF , Loteri a LLC e.e yng Nghaernarfon , Llanberis, Bala Pwllheli a Bangor | Yn unol â'r amserlen ac yn cario mlaen i 2025/6 |
| **19** | **Cynlluniau gwella îs adeiledd ymweld Gwynedd**<br>Uwchraddio isadeiledd<br>Traeth Dinas Dinlle<br>Uwchraddio cyfleusterau toiled mewn lleoliadau | CG | CG & Croeso Cymru Adnodd cronfa Pethau Bychain Dinas Dinlle | Diwedd Mawrth 2025 | Mesuryddion penodol i'r prosiectau | Wedi cyrraedd targedau mesuryddion y prosiect | Eleni, cwblhawyd gwaith sylweddol i uwchraddio maes parcio Dinas Dinlle gyda chymorth cronfa Pethau Bychain, | Wedi cwblhau |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | allweddol yng Ngwynedd | | £375,000<br>Uwchraddio Toiledau<br>£175,000 | | | | Croeso Cymru.<br><br>Wedi cwblhau uwchraddiad toiledau Cricieth. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **20** | **Canolfan Gwirfoddoli Gymunedol Parc Padarn** Cymdeithas Eryri i reoli rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau gwirfoddoli y gellir eu hysbysebu'n lleol i roi cyfle dysgu gwerthfawr a phleserus i bobl. | Parc Padarn<br>CNC CE | I'w gadarnhau | Ar hyn o bryd yn cael ei dreialu gyda'r bwriad o fod yn gwbl weithredol erbyn haf 2024 | Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau gwirfoddol ym Mharc Padarn<br><br>Nifer y digwyddiadau | | | |
| **21** | **Bwthyn Ogwen**<br>Pwynt gwefru e-feiciau a stondin cynnal a chadw beiciau ym Mwthyn Ogwen (i gyd-fynd â rhai newydd i fynd i mewn yn Yr<br>Hen Bost, Bethesda) a gwella'r seilwaith ar hyd Lôn Las Ogwen | CNC<br>APCE YG<br>Partneriaet h Ogwen | Cyllid SLSP drwy APCE<br>£4000 | Rhagfyr 2024 | Mae'r prosiect wedi'i ariannu a'i gwblhau | n/a | Mae unedau gwefru a raciau beiciau wedi'u gosod ym Mhwbthyn Ogwen ac ar gael i'r cyhoedd. | Disgwyl gosod yr unedau.<br>Bydd paneli gwybodaeth yn cael eu dylunio ar eu cyfer ymhen amser. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **22** | **Cymunedoli Cyf**<br>Criwiau Cymunedoli wedi dod at ei gilydd i rannu a thrafod arfer<br>dda, gwersi a dysgu<br><br>Mentrau Cymunedol yn ffurfioli i greu rhwydwaith o gydweithio yn rheolaidd<br><br>Syniadaeth o hyrwyddo a chyd-farchnata i gyd weithio hefo cynllun Cymunedoli.<br><br>Digwyddiadau ble bydd neges yr iaith yn ganolog<br><br>Trefnu digwyddiad, ffair, i ledaenu'r neges.<br><br>Camau nesaf i weithrediadau ar ddatblygu cynllun twristiaeth Cymunedoli | Arweinyddi on y Dyfodol Cymunedol i Cyf | Arian grant SPF<br><br>Grymuso Gwynedd | Ebrill hyd at Rhagfyr | Nifer o fentrau sy'n gweithredu o fewn maes Twristiaeth Cymunedol | Cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd o fewn y cyfnod | | Cymunedoli am anfon gwybodaeth (Mehefin 2025). |
| **23** | **Cymorth grant datblygu busnes SPF Trawsnewid trefi,** | CG<br>Arian SPF | CG ac amser staff | Mawrth 2025 | Nifer o fusnesion a gefnogir | 43 busnes wedi derbyn cynnig o gymorth SPF trwy'r | Ceisiadau grant llwyddiannus | Wedi cwblhau |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Grant eiddo a grant trawsnewid** | | | | | Grant Datblygu Busnes. Sbarduno a Trawsffurfio ( cyfanswm o £1,330,659.95) 15 busnes wedi derbyn cynnig cymorth SPF i ddatblygu eiddo (cyfanswm o £632,145.86) 14 busnes wedi derbyn cynnig trwy'r grant Trawsnewid Trefi (cyfanswm o £312,930.01) Am fanylion y busnesion cliciwch ar y linc | Successful grant applications<br><br>Astudiaethau Achos Grantiau Cymorth Busnes<br><br>Business Development Grant Case Studies | |